

BYDDWCH YN YMWHYBODOL O'R ARLLIW O WYRDD




Beth ydi arlliwio'n wyrdd?

Nid oes unrhyw ddiffiniad cyfreithiol, ond mae arlliwio'n wyrdd yn digwydd pan wneir hawliad bod cynnyrch neu wasanaeth yn gwneud mwy i ddiogelu'r amgylchedd nag y mae mewn gwirionedd. Mae yna ddeddfwriaeth i amddiffyn defnyddwyr a busnesau rhag cael eu camarwain mewn cysylltiad â honiadau o fod yn wyrdd y gall safonau masnach eu gorfodi. Gall safonau masnach hefyd gynghori busnesau i helpu gyda chydymffurfiaeth ac addysgu defnyddwyr ar sut i osgoi honiadau camarweiniol o fod yn wyrdd.

CYNNYRCH NEU WASANAETH

Honiadau 'gwyrdd' ar y label, delweddaeth, neu sloganau

Tag pris uwch i'r gwerthwr



Busnesau

Yna gall y cynhyrchion neu'r gwasanaethau sydd wedi'u harlliwio'n wyrdd cael eu pasio ymlaen i fusnesau anymwybodol, weithiau i'w hailwerthu, gan fanteisio ar ymddiriedaeth y gwerthwr.

Y blaned

Gall cwsmeriaid sy'n dewis cynhyrchion wedi'u harlliwio'n wyrdd dros eraill a allai fod yn fwy cynaliadwy gynyddu niwed ecolegol

Pwy all gael ei effeithio?



Busnesau

Gall busnesau sy'n dymuno amddiffyn yr amgylchedd cael eu camarwain hefyd, er enghraifft gyda honiadau bod gwasanaeth gwaredu gwastraff yn 'ecogyfeillgar' pan nad yw. Gallant hefyd brynu technoleg arbed ynni a gellir eu camarwain o ran arbedion cost posibl neu o ran pa mor 'wyrdd' yw'r dechnoleg mewn gwirionedd.

Ein planed

Gall un gydran o gynnyrch fod yn 'wyrdd', er enghraifft, cynhwysion mewn cynnyrch bwyd, ond gall y pecynnu a'r cludiant o'r cynhwysion niweidio'r amgylchedd, gyda'r deunydd pacio ddim yn ailgylchadwy neu'r cynhwysion yn gadael ôl troed carbon mawr wrth ei gludo. Gall defnyddwyr neu fusnesau ddewis cynnyrch neu wasanaeth sydd wedi'i arlliwio'n wyrdd yn hytrach nag un arall a fyddai mewn gwirionedd yn fwy buddiol i'r amgylchedd.




Defnyddwyr

Yn aml mae tag pris uwch ar gynhyrchion a gwasanaethau mwy gwyrdd. Gall defnyddiwr gael ei gamarwain gan honiadau y bydd pryniant yn cwrdd â'i safonau moesegol, iechyd neu amgylcheddol personol, ond nad yw'n gwneud mewn gwirionedd. Gall defnyddwyr gael eu camarwain gan ddelweddaeth, datganiadau amhendant neu ddryslyd, sloganau neu anghywirdebau ffeithiol. Gall y niwed i ddefnyddwyr amrywio o ran dirifoldeb, o godiadau bach mewn prisiau am gynhyrchion bwyd, i gannoedd neu filoedd o bunnoedd yn yr achos o systemau ynni gwyrdd yn y cartref, i gerbydau mwy gwyrdd ac eco-dwrystiaeth.



Pan fydd gwyrdd yn mynd o'i le

Yn y gorffennol, mae safonau masnach wedi gweld honiadau camarweiniol yn arwain at ganlyniadau difrifol i ddefnyddwyr a busnesau a wnaeth bryniannau i helpu i amddiffyn yr amgylchedd ac arbed arian ar ynni, er enghraifft, y rhai a gafodd eu camarwain ac nad oeddent yn sylweddoli nad oeddent bellach yn berchen ar eu toeau ar ôl cofrestru ar gyfer gosod paneli solar. Bu achosion hefyd lle mae labeli ffug 'organig' a roddwyd ar gynhyrchion wedi gwneud cannoedd o filoedd o



bunnoedd i fasnachwyr diegwyddor. Gall lefel yr elw y gellir ei wneud o honiadau ffug hyd yn oed ddenu grwpiau troseddu trefnedig. Wrth inni symud tuag at sero net, bydd yn gynyddol bwysig i sicrhau bod chwarae teg o fewn yr economi werdd.

Canfu astudiaeth yn 2021, a gynhaliwyd gan yr International Consumer Protection Enforcement Network (ICPEN), ac a arweiniwyd ar y cyd gan yr Competition and Markets Authority (CMA) dactegau camarweiniol fel:

Honiadau amhendant ac iaith aneglur, gan gynnwys termau fel 'eco' neu 'cynaliadwy' neu gyfeiriad at 'gynhyrchion naturiol' heb esboniad na thystiolaeth ddigonol o'r honiadau;

Logos a labeli eco brand-eu-hunain nad ydynt yn gysylltiedig â sefydliad achrededig;

Cuddio neu adael allan gwybodaeth benodol, megis lefelau llygredd cynnyrch, i ymddangos yn fwy ecogyfeillgar.

40%

Canran yr honiadau gwyrdd gan gwmnïau a all fod yn gamarweiniol yn ôl adolygiad ICPEN a gydlynwyd gan y CMA

34%

Canran y defnyddwyr sy'n chwilio am frandiau sydd ag achrediadau cynaliadwyedd cryf, darganfu astudiaeth Deloitte 2021 o 2,000 o oedolion yn y DU

Rhoi gwybod



Mae'n bwysig bod defnyddwyr neu fusnesau yn cysylltu â safonau masnach trwy'r llinell gymorth berthnasol os ydynt yn poeni am honiadau gwyrdd camarweiniol, fel y gellir ymchwilio i'r honiadau hyn a chymryd y camau priodol, p'un a yw hynny'n cynghori'r busnes neu'n cymryd camau mwy ffurfiol lle bo angen.

Lloegr: Llinell gyngor Cyngor ar Bopeth **0808 223 1133** neu <https://www.citizensadvice.org.uk/>

Cymru: Rhif ffôn iaith Gymraeg **0808 223 1144** neu <https://www.citizensadvice.org.uk/wales/>

Yr Alban: Consumer Advice Scot **0808 164 6000** neu <http://www.consumeradvice.scot/>

Gogledd Iwerddon: Consumerline **0300 123 6262** neu <https://www.nidirect.gov.uk/services/contact-consumerline-make-complaint-or-ask-advice>

Gall yr Competition and Markets Authority (CMA) hefyd weithredu ar honiadau gwyrdd ac wedi cynhyrchu Cod Hawliadau Gwyrdd ar gyfer busnesau sy'n gwneud honiadau amgylcheddol yn y DU. Gall yr Advertising Standards Agency (ASA) weithredu ar gyfer honiadau gwyrdd camarweiniol sy'n ymddangos mewn hysbysebion.